

E-FWLETIN COVID-19

Rhif 4

28 MAI, 2020



WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

Neges gan Sian Purcell, Prif Swyddog Medrwn Môn

Mae Ynys Môn wedi bod yn ynys o wirfoddolwyr erioed, gyda gwirfoddolwyr yn rhoi oriau lawer o'u hamser bob blwyddyn. Gydag *Wythnos Gwirfoddolwyr* yn agosáu, hoffai Medrwn Môn fyfyrion ar y cyfraniad enfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud heddiw a phob dydd, a chydabod y gwirfoddolwyr ar draws y sector am yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn y cyfnod anodd hwn.

Mae *Wythnos Gwirfoddolwyr* yn cael ei chynnal rhwng 1-7 Mehefin bob blwyddyn.

Fel arfer, mae'n amser pan rydym ni'n dod at ein gilydd i ddathlu gyda digwyddiadau a seremonïau gwobrwyo. Er na all digwyddiadau ledled yr Ynys gael eu cynnal yn 2020 oherwydd y sefyllfa Coronafeirws, rydym yn awyddus i gydnabod ymdrech gwirfoddolwyr nid yn unig yn ystod y pandemig hwn, ond trwy gydol y flwyddyn. Rydym ni wedi gweld rhai straeon gwych am ein helusennau, mudiadau a grwpiau yn arall-gyfeirio'u gwasanaethau wrth ymateb i'r cyfyngiadau, felly gadewch i ni barhau â'r creadigrwydd hwnnw yn ystod *Wythnos Gwirfoddolwyr* a rhoi'r gydnabyddiaeth y mae gwirfoddolwyr yn ei haeddu. Bydd *Wythnos Gwirfoddolwyr* eleni yn amser i ddweud "DIOLCH".



Arwydd o ddiolch yn Llangristiolus

Parhad ar Dudalen 2

MEDRWN MÔN

Ffôn: 01248 724944
Gwefan: medrwnmon.org
E-bost: post@medrwnmon.org

facebook @MedrwnMon



@MedrwnMon



Cefnogi Trydydd
Sector Cymru
Third Sector
Support Wales



WYTHNOS GWIRFODDOLWYR VOLUNTEERS' WEEK

Ar gyfer 2020, bydd ymgyrch *Wythnos Gwirfoddolwyr* yn digwydd ar-lein yn bennaf. Mae'r ymgyrch flynyddol, a sefydlwyd ym 1984, yn

cydnabod y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i'n cymunedau bob dydd. Eleni, mae'r gydnabyddiaeth hon yn bwysicach nag erioed. Ymunwch â ni a llawer o fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol ledled Ynys Môn i rannu negeseuon i ddiolch i wirfoddolwyr a dathlu pŵer gwirfoddoli i ddod â chymunedau at ei gilydd ac i fod yno ar adegau o angen.

Sut allwch chi ddangos eich diolch?

- ♦ **Rhannwch eich straeon gwirfoddoli** - mae pobl yn cynnig helpu mewn ffyrdd nad ydym wedi'u gweld o'r blaen. Mae adrodd eu straeon yn ffordd wych o gydnabod eich gwirfoddolwyr a diolch iddyn nhw am yr holl bethau gwych maen nhw'n eu gwneud.
- ♦ **Cynnal digwyddiad rhithwir**. Bore coffi rhithwir neu de parti efallai.
- ♦ **Cadw mewn Cysylltiad**. Cysylltwch drwy alwad ffôn.
- ♦ **Gwnewch fideo byr o ddiolch**. Gallwch ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol. I gael mwy o adnoddau Wythnos y Gwirfoddolwyr, ewch i wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).



Yn olaf, fel rhan o *Wythnos Gwirfoddolwyr* eleni mae WCVA yn bwriadu ymestyn yr ymgyrch #ClapforCarers i gynnwys #ClapforVolunteers am

8 p.m.
ddydd Iau nesaf
4ydd Mehefin, 2020

Rhowch wybod i'ch gwirfoddolwyr, eich staff, eich cefnogwyr a'ch cyllidwyr a'u gwahodd nhw i glapio hyd yn oed yn gryfach a gwneud hyd yn oed mwy o sŵn i ddiolch i'r gwirfoddolwyr sy'n helpu yn ystod pandemig Covid-19.

NEWYDDION GWIRFODDOLI

Mae'n anhygoel bod cymaint o bobl eisiau helpu a gwirfoddoli yn ystod pandemig Covid-19. Ar hyn o bryd, bod yn gymydog da yw'r ffordd bwysicaf y gallwch chi helpu. Mae '*meddwl yn lleol, gweithredu'n lleol*' yn bwysicach nag erioed.



Os ydych chi'n un o'r bron i 1,000 o bobl yn Ynys Môn hyd yma sydd wedi cofrestru gyda'ch **Tîm Cymorth Ardal** lleol neu'r **Banc Gwirfoddolwyr Ynys Môn**, yna, diolch. Mae'r ymateb wedi bod yn wych. Ym mhob cymuned, pentref a thref, mae pobl yn helpu ei gilydd trwy gefnogi'r rhai sy'n fregus neu'n ynysig, a'r rhai nad ydyn nhw'n gallu mynd allan gan eu bod yn hunan-ynysu.

Os ydych wedi ymuno â **Banc Gwirfoddolwyr Ynys Môn**, yna bydd Medrwn Môn mewn cysylltiad â chi dros yr wythnosau nesaf - diolch am eich amynedd. Sylwch fod y cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddoli i fudiadau gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen mwy o wirfoddolwyr dros yr wythnosau nesaf ac wrth i'r cyfleoedd hyn ddod ar gael byddwn yn eu rhannu.



I gael mwy o wybodaeth am hyn, darllenwch flog diweddar gan Felicitie Walls, Rheolwr Gwirfoddoli yn WCVA, yn gofyn i ddarpar wirfoddolwyr sydd wedi cofrestru i helpu i frwydro yn erbyn coronafirws i fod yn amyneddgar tra bod y sector yn cael trefn arno ef ei hun yn y cyfnod rhyfeddol hwn. Mae'r blog ar gael [YMA](#).

NEWYDDION



Llwyddiant Loteri!

Mae Medrwn Môn yn falch o gyhoeddi ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda chais i Gronfa Cymunedol y Loteri Genedlaethol - Pawb a'i Le. Dyfarnwyd cyfanswm o £59,995 ar gyfer cefnogi gwaith y bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn a Medrwn Môn i ddelio hefo argyfwng Covid-19.

Bydd yr arian hwn yn helpu cefnogi:

- Banciau Bwyd Ynys Môn
- Cynllun Bwyd Neges
- Cynllun Garddio Ynys Môn
- Cynllun Cefnogi Teuluoedd
- Cyflenwad PPE i Dimau Cymorth Ardal



Fe fydd yr arian yn help mawr i gefnogi'r gwaith arbennig sydd yn digwydd yn ein cymunedau.



Diolch yn fawr iawn i'r Loteri am eu cefnogaeth yn ystod y broses, ac i'n partneriaid yn y Cyngor a Menter Môn wrth inni gydweithio ar y cais.




TIMAU CYMORTH ARDAL

Mae **36 Tîm Cymorth Ardal** ar draws Ynys Môn ar hyn o bryd gyda **828** o wirfoddolwyr yn rhan o'r Timau.

Mae'r ffigyrau wythnosol diweddaraf yn dangos eu bod nhw wedi gwneud cyfanswm o **769** 'tro da' â **675** o bobl.

Ers i'r **Timau Cymorth Ardal** gychwyn ar eu gwaith maen nhw'n amcangyfrif iddyn nhw wneud cyfanswm o **5059** 'tro da' â **1544** o bobl.





COVID-19

Timau Cymorth Ardal

Mae Medrwn Môn yn dal i gefnogi pobl, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol gan ganolbwyntio ar yr anghenion sy'n codi yn ystod cyfnod COVID-19.



"Gallwn eich helpu"

Gallwn eich helpu gyda'r gwaith o redeg eich Tîm Cymorth Ardal, drwy gynnig arweiniad ar ddiogelu, cyllido, a llawer mwy!



"Trefnu'r gefnogaeth sy'n addas i'ch Tîm"

Os ydych chi'n Gydlynnydd Tîm Cymorth Ardal ac angen help gydag unrhyw agwedd o redeg eich Tîm, rhowch wybod i ni ac fe allwn helpu i **drefnu'r gefnogaeth sy'n addas i'ch Tîm.**

"Rydym dal
yma ar eich
cyfer chi"



Cysylltwch
â ni

01248 724944
post@medrwnmon.org

Ar Agor Dydd Llun i Ddydd Gwener 9:00am - 5:00pm

CYMUNEDAU'N HERIO COVID-19

TÎM CYMORTH ARDAL TALWRN

Mae pentref Talwrn wedi mynd ati i ddelio hefo argyfwng y Coronafirws mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg Siop Bodeilio, siop gymunedol y pentref, wedi penderfynu cadw'r siop ar agor ac mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio fel canolfan sy'n gwasanaethu anghenion y pentrefwyr yn ystod y cyfnod anodd yma.

Yn ogystal ag agor fel siop, mae yna wasanaeth o ddrws i ddrws wedi ei drefnu i ddanfôn papurau newydd, cynnyrch llaeth a bara ffres o *Becws Mefus*. Yn ogystal, maen nhw'n darparu gwasanaeth siopa a chasglu presgripsiynau ar gyfer y pentrefwyr oedrannus a bregus hynny sy'n hunan-ynysu.

Mae gwirfoddolwyr y Tîm Cymorth Ardal wedi cael help i ddsbarthu nwyddau gan fyfyrwyr prifysgol a chweched dosbarth sydd ddim yn astudio ar hyn o bryd. O'r chwith i'r dde yn y llun dyma Harri Williams sy'n astudio Peirianeg ym Mhrifysgol Lerpwl; Alaw Williams sy'n astudio Celf Gain ym Mhrifysgol Caerdydd; a Caio Evans, sy'n fyfyrwr chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Llangefni.



Yn ogystal, mae'r gwirfoddolwyr wedi bod yn trefnu tasgau diddorol i'r plant wrth iddyn nhw gerdded o gwmpas y pentref yn gwneud eu hymarfer corff dyddiol. Hyd yn hyn maen nhw wedi cael Her Bwni Pasg, Helfa Arth, cystadleuaeth addurno cerrig a sioe eliffantod!



GWYBODAETH AR-LEIN



Mae **Gofalwyr Cymru** yn cynnal cyfres o sgysiau a sesiynau gwybodaeth *Care for a Cuppa* ar-lein bob dydd Mawrth rhwng 14.30 a 16.30 (oni nodir yn wahanol). Bydd pob sesiwn yn cael ei gynnal yn Saesneg a bydd yn cynnwys siaradwr gwahanol bob wythnos rhwng 15.00 a 16.00. Mae cyfle hefyd i chi sgwrsio â gofalwyr eraill cyn ac ar ôl pob sgwrs.

Byddwch yn gallu mynychu'r rhain gan ddefnyddio Zoom. Nid oes angen eich cyfrif eich hun arnoch i gofrestru, dim ond y cyswllt a'r ID cyfarfod a anfonwn atoch. Rydym wedi cymryd rhai mesurau i sicrhau eich diogelwch wrth ddefnyddio Zoom. Am fwy o wybodaeth am y sesiynau yma - ac i gofrestru - ewch i: <https://www.carersuk.org/help-and-advice/get-support/>

Bydd **CYMUNEDAU DIGIDOL CYMRU** yn cynnal gweminar rhad ac am ddim ar **3.6.2020** i drafod rhai opsiynau digidol ar gyfer cadw pobl yn brysur.



GWEMINAR:
CADW'N BRYSUR

3.6.2020
2.00 > 3.00 p.m.

**CYNHELIR Y WEMINAR
HON YN GYMRAEG**

MAE'R SESIWN YMA WEDI'I CHYNLLUNIO'N BENODOL AR
GYFER STAFF A GWIRFODDOLWYR SYDD YN
GWEITHIO CYDA GRWPIAU / UNIGLION BREGUS
YNG NGHYMRU.



Wales Cooperative Centre
Canolfan Cydwelthredol Cymru

Cymunedau
**Digidol
Cymru**

Hyder Digidol,
Iechyd a Lles

Digital
Communities
Wales

Digital Confidence,
Health and Well-being



Rhaglen
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Programme

Bydd y weminar y trafod: Celf a Chreadigrwydd; Hapchwarae; Adnabod Natur; Ymwybyddiaeth Ofalgar a Myfyrdod; Cerddoriaeth a Sain; Cyfryngau Cymdeithasol; Cwisiau a Phosau; Hel Atgofion; a Fideo. Mae'r sesiwn hon wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda grwpiau / unigolion bregus yng Nghymru.

I gofrestru ar gyfer y sesiwn Gymraeg am 14.00 ewch i: <https://bit.ly/Web0306CYM>

I gofrestru ar gyfer y sesiwn Saesneg am 10.30 a.m. ewch i: <https://bit.ly/2SII2Ep>

GWYBODAETH



Mae *Age Cymru Gwynedd a Môn* - mewn partneriaeth ag *Age Cymru* - yn cynnig gwasanaeth dros y ffôn i bobl sydd yn teimlo'n unig ac angen cwmni dros y cyfnod anodd yma.

Mae'r llinell ffôn yn cael ei rhedeg yn lleol i Wynedd a Môn gan wirfoddolwyr ac aelodau staff profiadol sy'n gallu cynnig cymorth a chlust i wrando.

Mae'r gwasanaeth yn hollol gyfrinachol. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un fyddai'n elwa o'r gwasanaeth '*Check In & Chat*' yma ffoniwch: **01286 677 711**.



Cronfa Caledi



Mae cefnogaeth ariannol ar gael gan y Groes Goch Brydeinig i'r rhai mwyaf bregus yn ystod yr argyfwng coronafirws.

Crëwyd y Gronfa Caledi er mwyn helpu'r rhai sydd wedi eu heffeithio fwyaf yn ariannol gan yr achosion o coronafirws. Mae'r Gronfa'n darparu cymorth tymor byr i bobl sydd methu fforddio pethau hanfodol fel:

- ◆ Bwyd a nwyddau ymolchi
- ◆ Rhywle diogel i gysgu
- ◆ Mynediad at ffôn a'r rhynggrwyd
- ◆ Tanwydd i gadw'r golau ymlaen, coginio neu gadw'n gynnes.

Bydd pobl sy'n gymwys yn derbyn grant arian parod o £360, wedi'i dalu mewn tri rhandaliad misol o £120 yr un. Gall teuluoedd â phlant neu ddibynyddion eraill wneud cais am hyd at dri grant, am gyfanswm o £1,080 dros y tri mis. Er mwyn sicrhau eu bod yn helpu'r bobl sydd â'r angen mwyaf, mae'r Groes Goch Brydeinig yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid elusennol. Mae'n rhaid i sefydliadau gofrestru gyda'r Gronfa Caledi cyn iddyn nhw allu atgyfeirio ati hi. I gofrestru, cysylltwch â:

hardshipfund@redcross.org.uk

GWYBODAETH



**Ymunwch hefo ni am sesiynau
Natur a Lles ar Zoom!**

Amserlen Wythnosol

Ewch i: coedlleol.org.uk/naturefix
i gofrestru a chael cyfrinair Zoom

Defnyddiwch y côd cyfarfod
472-420-3037 ar Zoom

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener
10.30–11.30	Gwylfa Natur	Fforio / Maeth	Gweithgareddau i blant/ Teuluoedd	Cadw'n Heini	Ymwybyddiaeth Ofalgar
2.30–3.30					Sgiliau / Crefftau

www.coedlleol.org.uk

@coedlleol

@Actifwoodswales

@coed_lleol

Coed Lleol is part of Small Woods

Registered Charity Number 1081874

Rheoli Pryder Anxiety Management

In Gwynedd

Dydd Mercher / Wednesdays 10:00am-12:00pm

Mehefin 24 June – Awst 5 August

*Due to the COVID-19 outbreak this course will now be offered via telephone and online.

Oherwydd achos COVID-19 bydd y curs hwn yn cael ei gynnal dros y ffôn yn awr ac ar-lein.



Yn ein curs 7 wythnos Rheoli Pryder ar gyfer pobl ifanc (14-18) galluch ddysgu natur pryder a sut mae'n cael ei gynnal. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn dysgu amrywiaeth o sgiliau ymarferol i helpu lleihau pryder.

Our 7 week Anxiety Management course for young people (14-18) will provide participants with an understanding of what anxiety is and how it is maintained. You will learn a variety of practical skills to help reduce anxiety.

Am fwy o wybodaeth galluch gysylltu â / For more information please contact:
E-bost / Email: erin@monagwyneddmind.co.uk
Ffôn / Phone: 01286 685 279



Ynys Môn &
Gwynedd



Law yn llaw at iechyd meddwl
Together for mental health

cyngor ar
bopeth

citizens
advice

Ynys Môn

**Ydych chi'n teimlo'n unig, ar eich hunan neu fod
pwysau'r byd ar eich ysgwyddau?**



Mae gofyn am help yn iawn

Mae ein tîm Canolfan MI FEDFRAF ar gael i ddarparu cefnogaeth emosiynol, cyngor defnyddiol a chyfeirio at wasanaethau cefnogi yn eich cymuned chi



Mae Tîm ICAN yma i gefnogi a chadw mewn cysylltiad efo aelodau o'r gymuned sydd yn ei chael yn anodd i gadw iechyd emosiynol a chorfforol iach yn ystod y creisis Covid-19.

Byddwn yn cefnogi drwy:

- Greu cysylltiad rheolaidd
- Galwadau ffon cefnogol
- Cynnig gwybodaeth am adnoddau defnyddiol i helpu cadw ein iechyd emosiynol yn iach, a mesuriadau ar sud i ymdopi efo'r sefyllfa
- Arallgyfeirio i fudiadau a gwasanaethau cymunedol a chefnogol

Cyn y creisis Covid-19 roedd y tîm yn eistedd yng nghanoelfanau Cyngor ar Bopeth Ynys Môn yn cynnig gwasanaeth cefnogol wyneb wrth wyneb i oedolion a oedd angen cefnogaeth emosiynol, ac rydym yn parhau i gynnig y gwasanaeth yma dros y ffôn 9.30am - 4pm dydd Llun i ddydd Iau bob wythnos.

Dydd Llun a Mawrth(Sian) 07496 571241 Dydd Mercher a Iau (Jayne) 07496 571156

LINC CYMUNEDOL MÔN

Rydym yma ar eich cyfer chi!

Hunan ynysu?

'Nabod rhywun sydd yn hunan ynysu?



Mae pobl Ynys Môn yn barod i helpu!

Linc Cymunedol Môn



01248 725745



linc@medrwnmon.org

Ar Agor Dydd Llun i Ddydd Gwener 9:00am - 5:00pm



Er fod gwasanaeth **Linc Cymunedol Môn** wedi newid, "**rydym dal yma ar eich cyfer chi!**", gyda rhestr hir o wirfoddolwyr parod ar draws Ynys Môn yn barod i helpu.

Mae **Linc Cymunedol Môn** wedi derbyn yr ymholiadau canlynol wythnos yma:

- * 19 Cais am siopa
- * 54 Galwad i gadw mewn cysylltiad
- * 12 Atgyfeiriad i Fanc Bwyd
- * 26 Ymholiad cyffredinol

Rydym hefyd wedi dosbarthu 218 presgripsiwn drwy wirfoddolwyr Clwstwr Meddygfeydd Ynys Môn.

Ac mae ein Cydlynwyr Asedau Lleol yn dal i gadw mewn cysylltiad gyda'r bobl y maen nhw wedi bod yn eu cefnogi dros yr wythnosau / misoedd diwethaf.

Ydych chi angen unrhyw beth? Cysylltwch hefo:

Linc Cymunedol Môn - 01248 725745

linc@medrwnmon.org



Cronfa Ymateb Cymunedol

Beth yw'r Gronfa Ymateb Cymunedol?

Cronfa sydd wedi'i chreu i gefnogi prosiectau cymunedol hanfodol wrth iddynt ymateb i heriau eithriadol i gefnogi unigolion sy'n byw ar Ynys Môn.

Mae'r cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer prosiectau sy'n defnyddio ffyrdd creadigol o wella techyd a lles unigolion sy'n byw ar Ynys Môn yn ystod y panademig COVID-19

Pwy all wneud cais?

Efallai eich bod yn rhan o dîm cymorth, grŵp cymunedol neu sefydliad gwirfoddol newydd neu gyfredol sydd angen cyllid ychwanegol i gefnogi neu ychwanegu gwasanaeth penodol at yr hyn rydych chi'n ei gynnal ar hyn o bryd.

**Grantiau
rhwyng**

£100-£1000

Prynu Offer

Annog pobl i ddysgu sgiliau newydd, offer garddio, offer gwnio, offerynnau cerdd ac ati.

Datblygu Grwpiau Cefnogi Lleol

Cefnogaeth ffôn, prydau bwyd i'ch cartref, nôl siopa angenrheidiol, cerdded cŵn ayb.

Cadw mewn cysylltiad

Defnyddio ffyrdd newydd a chreadigol o helpu i gadw mewn cysylltiad

Cyflenwadau Hanfodol

Danfon siopa, moddion/ffisig, neu bresgripsiwn i unigolyn

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â

E derlwyn@medrwnmon.org

W www.medrwnmon.org



GWYBODAETH I'R SECTOR



Cynllun gofod hysbysebu i gefnogi ymdrechion Covid

Er mwyn cefnogi elusennau a chwmnïau sy'n gwneud gwaith arwrol yn ystod argyfwng Covid-19, mae S4C yn bwriadu rhannu'r newyddion am eu hymdrechion ar y sianel.

Mae S4C yn cynnig gofod hysbysebu yn rhad ac am ddim i elusennau sydd wedi eu lleoli, neu'n gweithredu ar lefel Cymreig ac yn cynnig cymorth i bobl yn ystod yr argyfwng. Mae hefyd yn cynnig cyfraddau gostyngedig i gwmnïau yng Nghymru er mwyn hyrwyddo eu hymdrechion Covid.

Ac er mwyn annog hysbysebu yn y Gymraeg mae'r sianel wedi penderfynu ymestyn ei gymhorthdal ar gyfer hysbysebion Cymraeg i'r cynllun.

Am fanylion pellach ar sut mae manteisio ar y cynnig bydd angen cysylltu â Huw Potter neu Dylan Jones o Sky Media, sef asiant hysbysebu S4C. Byddant hefyd yn gallu cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer cynhyrchu hysbysebion neu gyda mynediad at gronfa cynhyrchu hysbysebion Cymraeg S4C. Mwy o fanylion: www.s4c.cymru/cy/hysbysebu-ar-s4c/

GWASANAETH CYFIEITHU AM DDIM

Mae **Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg** wedi ymestyn eu cynllun prawfddarllen i gynnig cyfieithu am ddim i'r sector yn ystod cyfnod yr argyfwng Coronafeirws. Mae'r Tîm yn ymwybodol iawn fod nifer o sefydliadau trydydd sector yn gorfod ymateb yn gyflym i sefyllfa sy'n newid o hyd.



Efallai fod nifer ohonoch yn awyddus i gyfathrebu'n ddwyieithog, ond angen ychydig o gymorth i baratoi negeseuon yn Gymraeg ar fyr rybudd. Gall y Tîm Hybu gyfieithu hyd at 1000 o eiriau i chi am ddim. Maen nhw hefyd yn dal i gynnig cyngor a chymorth pellach o safbwynt cynllunio'ch defnydd arferol o'r Gymraeg.

Anfonwch y gwaith sydd i'w gyfieithu at hybu@comisiynyddygyymraeg.cymru.

GWYBODAETH I'R SECTOR

Mae'r Brifysgol Agored yn brifysgol unigryw a grëwyd 50 mlynedd yn ôl i agor addysg i bawb. Mae'n agored i unrhyw un, yn unrhyw le, yn newid miliynau o fywydau ledled y byd. Ar dudalennau OpenLearn y Brifysgol Agored, mae rhestr o 1,000 o gyrsiau am ddim i ddewis ohonynt, yn y categorïau canlynol:

- Iechyd, Chwaraeon a Seicoleg
- Addysg a Datblygiad
- Hanes a'r Celfyddydau
- Ieithoedd
- Arian a Busnes
- Natur a'r Amgylchedd
- Gwyddoniaeth, Mathemateg a Thechnoleg
- Cymdeithas, Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith



Mae llawer o gyrsiau'n berthnasol i wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys 'Beth yw manteision gwirfoddoli?', 'Cynnwys gwirfoddolwyr', 'Cymryd rhan yn y sector gwirfoddol' a 'Cyrsiau arweinyddiaeth ar gyfer y sector gwirfoddol'. Felly beth am gael golwg? I bori trwy'r cyrsiau sydd ar gael a chofrestru, ewch i www.open.edu/openlearn/free-courses/full-catalogue



Cyllid i gefnogi'r sector

Fel rhan o'u hymateb i'r argyfwng coronafeirws, mae Cyllido Cymru wedi creu categori cyllido 'coronafeirws' newydd i ddod â gwybodaeth at ei gilydd am y cronfeydd sy'n cefnogi'r sector yn uniongyrchol yn yr amser hwn o angen.


Cofrestrwch am ddim ar eu gwefan i weld yr holl fanylion am y grantiau sydd ar gael: <https://cy.funding.cymru/coronafeirws-diweddaraf>

infoengine



Ydych chi'n cynnig cefnogaeth i'ch cymuned yn ystod yr epidemig Coronavirus?

Hyrwyddwch y gwasanaethau sydd gennych ar gael. Cofrestrwch ar infoengine, y cyfeirlyfr ar-lein o wasanaethau'r trydydd sector, i adael i'ch cymuned wybod sut y gallwch eu helpu yn ystod yr amseroedd anodd hyn. Infoengine yw'r lle ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan elusennau, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Helpwch ni i rannu'ch gwasanaethau trwy gofrestru nawr!



Os hoffech help i gofrestru'ch gwasanaethau, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) lleol.

I gysylltu â'ch CGS lleol, ewch i: <https://thirdsectorsupport.wales/contact> Mae cefnogaeth ganolog gan infoengine ar gael o infoengine@pavo.org.uk

DIOLCH

Ers dechrau argyfwng Covid-19 mae lluniau'r Enfys wedi cael eu gosod ar ffenestri gan blant ar draws y wlad - i ddiolch i weithwyr allweddol - ac fel symbol o obaith. Mae'r bardd Tudur Dylan Jones a'r gantores Einir Dafydd wedi cyfansoddi cân sy'n sôn am arwyddocad lluniau'r enfys yn ein ffenestri. Mae'r gân i'w chlywed ar *YouTube*: https://www.youtube.com/watch?v=hmJ_eUugWcA . Dyma eiriau'r gân -

ENFYS YN Y FFENEST



Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.



Mae enfys yn y ffenest,
a'r ffenest eto draw,
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.



Llond gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach,
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.



Ac er bod sgwrsio'n ddifyr
gydag eraill dros y we
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau hyd y lle.



A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd â'r criw
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.



Tudur Dylan Jones



Medrwn Môn sydd wedi golygu, dylunio a dosbarthu'r E-Fwletin hwn. Nid yw'r farn a fynegir ynddo o reidrwydd yn farn Medrwn Môn. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.